

**Fframwaith cymwyseddau iaith Gymraeg ymarferwyr addysg**

	<b>DIM SGILIAU IAITH GYMRAEG</b>	<b>MYNEDIAD</b>	<b>SYLFAEN</b>	<b>CANOLRADD</b>	<b>UWCH</b>	<b>HYFEDREDD</b>
<b>Côd cyfrifiad gweithlu</b>	<b>W1</b>	<b>W2</b>	<b>W3</b>	<b>W4</b>	<b>W5</b>	<b>W6</b>
<b>Gwranddo</b>	Dim sgiliau	Gallu deall ac ymateb i frawddegau syml pob dydd, sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol, pan fydd y siarad yn bwyllog.	Gallu deall ac ymateb i amrediad o frawddegau syml sy'n ymwneud â sefyllfaoedd sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol, e.e. themâu pob dydd ac amseroedd gwahanol y ferf.	Gallu deall ac ymateb i brif bwyntiau pan fydd rhywun yn siarad yn naturiol am bynciau pob dydd o fewn a thu allan i'r ysgol, e.e. mewn sgwrs, neu mewn sefyllfaoedd grŵp bach	Gallu deall y rhan fwyaf o drafodaethau, hyd yn oed am bynciau anghyfarwydd ac arbenigol e.e. mewn cyd-destun ffurfiol	Gallu deall ac ymateb i bron popeth sy'n cael ei glywed gan gynnwys gwahanol acenion, tafodieithoedd a chyflymder y siaradwr
<b>Llafar</b>	Dim sgiliau	Gallu cyflwyno eu hunain ac eraill ar lafar, gallu gofyn ac ateb cwestiynau am wybodaeth syml, e.e. ble mae rhywun yn byw, beth maen nhw'n hoffi ei wneud, gallu defnyddio'r amser a rhifau.	Gallu cyfrannu at sgwrs syml gan ddefnyddio amrediad o frawddegau syml sy'n ymwneud â sefyllfaoedd sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol, e.e. themâu pob dydd ac amseroedd gwahanol y ferf.	Gallu cynnal a chyfrannu at sgwrs am bynciau cyfarwydd sy'n ymwneud â'r ysgol a bywyd pob dydd gan ddefnyddio amrywiaeth o frawddegau syml a chymhleth. Gallu disgrifio profiadau, gobeithion a rhoi esboniadau cryno dros eu barn. Yn dechrau adnabod gwallau cyffredin.	Gallu cyfathrebu gan ddefnyddio ystod o gystrawennau sy'n dangos lefel gynyddol o gywirdeb. Gallu trafod pynciau anghyfarwydd ac arbenigol. Yn gallu mynegi a chyfiawnhau barn. Yn gallu adnabod rhai gwallau a'u cywiro.	Gallu siarad yn estynedig am faterion cymhleth, cyflwyno dadleuon gan ddefnyddio'r cywair priodol. Rhyngweithio ac arwain trafodaethau a sesiynau addysgu estynedig yn gywir gan amlaf. Yn gallu hunangywiro lle bo angen.
<b>Darllen</b>	Dim sgiliau	Gallu deall testunau ysgrifenedig byr iawn lle mae pobl yn rhoi gwybodaeth bersonol syml amdanynt eu hunain neu eraill, e.e. ar ffurflenni, arwyddion yr ysgol. Gallu darllen gorchmynion sy'n addas i gyd-destun yr ysgol.	Gallu deall negeseuon ysgrifenedig am bethau bob dydd a llythyron/negeseuon e-bost syml. Gallu darllen straeon syml gydag ymgais i ynganu'n gywir.	Gallu deall erthyglau neu negeseuon e-bost uniongyrchol am bynciau pob dydd neu bynciau'n ymwneud â'r gwaith. Gallu darllen straeon ac ynganu'n gywir ar y cyfan.	Gallu deall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papur newydd ac adroddiadau sydd wedi eu bwriadu ar gyfer siaradwyr rhugl, gyda chymorth geiriadur, a sganio trwy destunau hir i gael hyd i fanylion. Gallu darllen straeon yn eithaf hyderus ac ynganu'n gywir.	Gallu crynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau llafar ac ysgrifenedig, ail-greu dadleuon a disgrifiadau mewn cyflwyniad cydlynus. Gallu darllen straeon i ddysgwyr o bob oedran yn hyderus ac ystyrlon.
<b>Ysgrifennu</b>	Dim sgiliau	Gallu ysgrifennu brawddegau syml pob dydd, sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol, e.e. cyfarwyddiadau, cwestiynau, gorchmynion, adborth syml.	Gallu ysgrifennu brawddegau cyfansawdd/cymhleth at ddibenion addysgol.	Gallu ysgrifennu paragraffau byr am bynciau bob dydd o fewn a thu allan i'r ysgol. Yn dechrau adnabod gwallau cyffredin.	Gallu ysgrifennu paragraffau estynedig am amrywiaeth o bynciau anghyfarwydd ac arbenigol, efallai gyda chymorth golygyddol. Yn gallu adnabod rhai gwallau a'u cywiro.	Gallu ysgrifennu'n estynedig ac yn safonol am faterion cymhleth. Ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau. Yn gallu hunangywiro lle bo angen.

